

CYNORTHWY-YDD GWASANAETHAU ADEILADU

Theatr Clwyd Disgrifiad Swydd

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (y Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn creu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn hanes y 42 o flynyddoedd ers i'r theatr fod yn gweithredu, cyfnod a fydd yn ailddiffinio ac yn diogelu dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon.

Mae Theatr Clwyd yn cynhyrchu mwy nag wyth sioe y flwyddyn - yn y Saesneg yn bennaf, ond hefyd yn y Gymraeg - ac mae'n cyflwyno rhywfaint o'r gwaith hwn ar daith yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae ganddi raglen waith hynod lwyddiannus ar gyfer a gyda phobl ifanc sy'n cael ei chreu yn yr adeilad a'r tu allan iddo, a theithiau i ysgolion lleol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r adeilad hefyd yn croesawu amrywiaeth o berfformiadau drama, dawn, cerddoriaeth a chelf teithiol ar gyfer pob oed, rhaglen gynhwysfawr o ffilmiau a rhaglen gymunedol brysur. Hefyd mae'r sefydliad ar flaen y gad gyda gwaith cysylltiedig â'r celfyddydau a lles.

Rydym wedi gwneud datblygiadau mawr i newid siâp ein rhaglennu; rydym wedi ymrwymo i osod profiad yr ymwelydd wrth galon ein penderfyniadau; rydym wedi dechrau cynyddu ein digwyddiadau masnachol; rydym wedi cymryd y camau cyntaf tuag at ddyfnhau ein perthynas â'n cymuned; rydym wedi dechrau datblygu ein cynigion ategol ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i farchnata ein gwaith a'n hadeilad yn fwy strategol ac effeithiol. Hefyd rydym wedi cyflwyno astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf mawr ac wedi derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynlluniau i Ddylunio a Datblygu.

Theatr Clwyd yw'r unig theatr gynhyrchu yn y DU sy'n eiddo i awdurdod lleol o hyd. Gyda throsiant o £5.3m yn 2016-17, fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'i gweithgareddau ei hun. Cynhelir rhyw 2,115 o ddigwyddiadau unigol yn y theatr bob blwyddyn, gydag oddeutu 200,000 o bobl yn eu mynychu, a 50,000 o aelodau cymunedol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth. Yn ystod 2016/17, gwelodd 220,000 yn rhagor o bobl sioeau gan Theatr Clwyd mewn llefydd eraill yn y DU.

Crynodeb o'r Swydd

CYNORTHWY-YDD GWASANAETHAU ADEILADU

Yn gyfrifol am: amherthnasol

Yn adrodd yn ôl i: Cydlynnydd Gweithrediadau

CYNORTHWY-YDD GWASANAETHAU ADEILADU

Yr Adran Gweithrediadau

Mae'r Adran Gweithrediadau yn Theatr Clwyd yn gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

Pwrpas y Swydd

Gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio sydd angen sgiliau anarbenigol ar adeiladau'r theatr, y tiroedd, gosodiadau a ffitiadau.

Prif gyfrifoldebau

- Cynnal a newid yn ôl yr angen y goleuadau mewnol ac allanol ledled yr adeilad, ac eithrio goleuadau'r llwyfannau.
- Atgyweirio unrhyw offer trydanol sydd â nam os yw hynny'n bosib a chysylltu â chontractwyr ar gyfer cynnal a chadw a phrofi.
- Sicrhau lefelau cyfforddus o reoli gwres yn yr adeilad a sicrhau bod y boeleri a'r unedau awyru a thrin yr aer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.
- Bod y pwynt cyswllt cyntaf yn yr adeilad ar gyfer unrhyw weithredu mewn argyfwng (pethau'n gollwng, wedi blocio ac ati) – asesu a datrys problemau'n bersonol os yw hynny'n bosib.
- Gallu atgyweirio a chynnal a chadw'r adeilad, ei gyfleusterau a'i seilwaith, gan gynnwys – gwaith plymio, gwaith coed, paentio, garddio a chynnal a chadw cyffredinol.
- Rhoi eitemau o offer at ei gilydd yn ôl yr angen.
- Symud dodrefn ac offer ar gyfer digwyddiadau arbennig.
- Monitro safonau glendid yr eiddo a'r dodrefn ac adrodd yn ôl am unrhyw broblemau neu namau i'r Cydlynnydd Gweithrediadau.
- Rhoi gwybod i'r Cydlynnydd Gweithrediadau am unrhyw waith atgyweirio neu gynnal a chadw sy'n ofynnol yn yr eiddo sydd y tu hwnt i gymhwysedd tîm y theatr.
- Cadw at a gweithredu'r cynllun o gynnal a chadw ataliol y cytunwyd arno, fel y trafodwyd gyda'r Cydlynnydd Gweithrediadau.
- Sicrhau nad oes sbwriel yn unrhyw ardal ar y safle a bod pob draen a gyli'n lân a dirwystr.
- Gwirio a hybu arferion gorau mewn cadwraeth ynni yn y defnydd o wres, golau a dŵr ym mhob rhan o'r adeiladau..

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad clir o gynnal a chadw adeilad mewn rôl debyg, gyda hyfforddiant perthnasol.
- Meddwl yn dechnegol, gyda sgiliau datrys problemau ymarferol rhagorol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a gallu cyfathrebu safbwyntiau i randdeiliaid amrywiol.
- Profiad o reoli amrywiaeth o gontractwyr cynnal a chadw adeiladau.
- Gwybodaeth glir am ofynion lechyd a Diogelwch, gan gynnwys asesiadau risg, a phrofiad ohonynt.
- Gallu dod o hyd i namau sylfaenol yn yr adeilad a'u hatgyweirio, ac asesu'r angen am gefnogaeth arbenigol neu gontractwyr allanol.
- Gallu gweithio ar eich pen eich hun ac fel aelod o dîm ehangach.
- Gallu ymateb i dasgau rheolaidd yn gyflym ac yn effeithlon, a'u cwblhau.
- Sylw da i fanylder.
- Dibynadwy a rhagorol am gadw amser.

Dymunol

- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.
- Trwydded yrru lawn a glân.

Rydym yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwmo i gynyddu nifer ein cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg.

Bydd trefniadau gweithio rhan amser, rhannu swydd a hyblyg yn cael eu hystyried.